Cymdeithion **SIÂN SHAKESPEAR** Associates

Creigfryn + Pentir + Bangor + Gwynedd + LL57 4EA
01248 351378 + 07890 613933
info@sianshakespear.co.uk

# Sesiynau canfod barn ar gynigion arbed Cyngor Gwynedd Tachwedd 2009

## Cefndir

Yn ystod y tair blynedd nesaf bydd rhaid i holl gynghorau Cymru wynebu toriadau mawr yn eu cyllid ac - o gymharu â chynghorau eraill Cymru - bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tamaid yn llai o'r cyllid cenedlaethol. O ganlyniad mae'r Cyngor yn cynllunio i arbed tua £16 miliwn rhwng 2010 a 2013. Er mwyn gwireddu hyn mae'r Cyngor yn y broses o lunio Strategaeth Arbedion Tair Blynedd sy'n adnabod arbedion sylweddol a fydd yn cael cyn lleied â phosibl o effaith ar drigolion y sir. Fel rhan o'r broses o lunio'r strategaeth, penderfynwyd canfod barn carfanau o bobl sydd â diddordeb yn yr arbedion a'r cynlluniau posibl, a chomisiynwyd Cymdeithion Siân Shakespear a Gethin Clwyd i gynllunio a hwyluso'r trafodaethau fel hwyluswyr annibynnol.

Yn dilyn cynnal cyfres o sesiynau wedi'u hwyluso yn ystod wythnos 9 – 13 Tachwedd bydd Bwrdd y Cyngor yn ystyried adroddiad ar y Strategaeth Arbedion a fydd yn cynnwys adroddiad ar y farn a fynegwyd yn ystod y sesiynau hyn ar 1 Rhagfyr. Yna, ar 10 Rhagfyr bydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r rhestr opsiynau arbed derfynol ac o fis Ebrill 2010 bydd y swyddogion yn cychwyn y broses o wireddu'r opsiynau.

## Pwrpas y sesiynau

- Egluro i fynychwyr pam bod angen i'r Cyngor arbed arian.
- Rhannu gwybodaeth am rhai cynigion penodol i arbed arian.
- Canfod barn er mwyn rhoi cymorth i Aelodau'r Cyngor benderfynu ar rai o'r cynigion anoddaf.

### Y sesiynau canfod barn

Cynhaliwyd cyfanswm o saith sesiwn dros gyfnod o dri diwrnod gyda charfanau gwahanol o bobl mewn tri lleoliad gwahanol: Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Gwahoddwyd aelodau o'r sector wirfoddol, staff, a phreswylwyr i sesiynau gwahanol, ac er bod ganddynt eu persbectif eu hunain, fe aethant ati i ystyried y cynigion yn wrthrychol, ac nid oedd gwahaniaeth amlwg yn y farn rhwng un garfan a'r llall. Ar y cyfan gofynnwyd i'r mynychwyr ystyried yr un cynigion yn y rhan helaeth o'r sesiynau, ond, amrywiwyd hyn ychydig rhwng y staff a gweddill y carfanau. Isod, crynhoir y sylwadau i gyd sy'n berthnasol i bob cynnig, ac argymhellir i'r Cyngor roi'r un pwyslais ar bob un o'r sylwadau. Ceir rhestr hirach o sylwadau ar rai cynigion oherwydd cawsant eu hystyried o fewn mwy o sesiynau.

### Ffurf y sesiynau

Dilynodd y rhan fwyaf o'r sesiynau yr un rhaglen gyda chyflwyniad gan y Prif Weithredwr, Mr Harry Thomas, i gychwyn i egluro'r cefndir a'r angen i arbed. Wedi hyn, cyflwynwyd cynigion neu opsiynau penodol fesul un ac yn rhai o'r sesiynau rhoddwyd cyfle i fynychwyr

holi cwestiynau ar bob un. Yn dilyn hyn gofynnwyd i grwpiau o fynychwyr nodi'u pryderon, pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu, er mwyn i aelodau'r Cyngor allu ystyried y cynigion yng ngoleuni'r rhain. Wedi i bawb gael clywed barn pob un o'r grwpiau cafodd y mynychwyr gyfle i bleidleisio er mwyn mynegi pa mor deg a fyddai i'r Cyngor ystyried y cynnig dan sylw fel rhan o Strategaeth Arbedion. Oherwydd hyd y sesiynau (tua 2.5 awr) dim ond nifer cyfyngedig o gynigion a oedd yn bosib i fynychwyr eu hystyried a'u trafod.

### Yr adborth

Mynychodd cyfanswm o 95 o bobl y sesiynau, a chafwyd adborth ysgrifenedig ar y sesiynau gan nifer ohonynt. O ddarllen y sylwadau (gweler atodiad 1 am y rhestr lawn), heb os roedd teimlad bod budd yn y sesiynau gyda nifer yn gofyn am fwy o amser i ystyried mwy o gynigion/opsiynau. Yn anochel, roedd rhai yn teimlo y byddent yn hoffi gwybod mwy a chael mwy o fanylion am rai cynigion, yn ogystal â derbyn y wybodaeth o flaen llaw er mwyn ystyried y cynnwys i fwy o ddyfnder. Hoffai rhai hefyd fod wedi dewis pa gynigion/opsiynau i'w trafod ac awgrymwyd cyfarfod o flaen llaw i'r perwyl hyn.

Ar y cyfan derbyniodd pawb y neges am yr angen i arbed a chwtogi ac roedden nhw'n awyddus i gymryd rhan yn y drafodaeth o sut i fynd o'i chwmpas. Dim ond un neu ddau o fynychwyr a oedd yn ei chael yn anodd ystyried mynegi barn adeiladol. Cafwyd trafodaeth aeddfed ac adeiladol ym mhob un o'r sesiynau gyda phawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud.

Recriwtiwyd preswylwyr drwy gysylltu gyda'r rhai a oedd wedi ymateb i'r Arolwg Barn sirol drwy ddatgan diddordeb mewn rhoi barn i'r Cyngor ar unrhyw fater pellach. Golyga hyn mai barn rhai preswylwyr sydd gyda diddordeb gwirioneddol mewn materion y Cyngor yw'r isod, ac nid ydynt yn cynrychioli croestoriad penodol o breswylwyr ar draws y sir. Serch hynny, cafwyd rhywfaint o groestoriad o ran oedran, rhyw a chefndir yn nifer o'r sesiynau, a theimlodd yr aelodau staff y byddai mwy wedi hoffi mynychu pe baent wedi cael mwy o rybudd a gwybod mwy am y math o sesiwn o flaen llaw.

### Y pleidleisio

Am y tro cyntaf mewn sesiwn canfod barn o fewn y sir defnyddiwyd teclyn electronig i alluogi mynychwyr fynegi'u barn drwy daro pleidlais ar bob un o'r cynigion gerbron. Yn ôl pob golwg roedd ymateb ffafriol i'r ymarferiad gan nad oedd rhaid i neb ddatgelu'u pleidlais ac roedd yn ffordd daclus o gloi'r drafodaeth ar un cynnig cyn symud ymlaen i'r cynnig nesaf. Nodir canlyniadau'r pleidleisio isod er mwyn darparu cofnod llawn o'r hyn ddigwyddodd yn y sesiynau ond ni ddylid gosod fawr o bwyslais ar y canrannau a gofnodwyd gan fod y samplau mor fychan. Mae hefyd yn bwysig nodi nad oedd trefnwyr y sesiynau'n awyddus i roi gormod o bwysau ar y mynychwyr trwy eu gorfodi i wneud penderfyniadau, ac felly geiriwyd cwestiwn y pleidleisio'n ofalus. Gwir werth y sesiynau oedd y sylwadau a wnaethpwyd gan y mynychwyr.

## Cynnig un – adolygu'r ddarpariaeth preswyl ar gyfer pobl hŷn

### Cwestiynau

- Faint o gartrefi sy'n bodoli nawr?
  A - 14
- A yw hi'n bosibl i'r Cyngor wneud arbedion o fewn y drefn bresennol?
  A - Oes trwy ymgyrchoedd megis teleofal, ail-alluogi ac ati.
- Faint yn rhatach fyddai'r sector breifat yn rhedeg y cartrefi? Pam y gwahaniaeth? - -
  A - Drwy gomisiynu ar sail yr angen ar yr adeg
- A yw'r Cyngor yn ystyried buddsoddi er mwyn cael arbedion?

A - Ydi

- Lle mae'r cyllid yn dod i adeiladu'r cartrefi pwrpasol?
  - Ni fydd adeiladau newydd yn cael eu hadeiladu.
- Beth yw'r canran o arian sy'n dod o drethi preswylwyr?
  A - 20% sef yr uchafswm a ganiateir oherwydd cap o'r llywodraeth
- A fuasai'r niferoedd presennol yn gallu cael eu cartrefu neu a fydd y niferoedd yn disgyn?
  A – Cynllun effeithlonrwydd yw hwn – sef cyflwyno cynllun fydd yn ymateb i'r gofyn ond mewn ffordd newydd
- A yw'r ddemograffeg yn gywir? Pam lleihau i chwech?
  A - Bydd hyn yn derbyn ystyriaeth lawn fel rhan o'r cynllun manwl os bydd y Cyngor yn cynnwys y cynnig hwn yn y Strategaeth Arbedion terfynol

**Pryderon**

- Lle mae'r broses o fuddsoddi i **atal** pobl rhag mynd i gartrefi yn y lle cyntaf?
- Faint fydd y **gwir arbediad** o ystyried y nifer o ymweliadau i gartrefi personol fydd angen eu gwneud a chostau eraill?
- Lle mae'r **buddsoddiad mewn cartrefi warden**/dan oruchwyliaeth?
- Bydd angen sicrhau **gofal ysbaid** o fewn y sector breifat.
- Bydd angen buddsoddiad pellach mewn **gofal ychwanegol** er mwyn cadw pobl adref e.e drwy'r sector gwirfoddol
- Sut all y Cyngor **reoli'r ddarpariaeth yn y sector breifat**?
- Mae perygl o **golli rheolaeth** unwaith y mae cartrefi gofal yn nwylo'r sector breifat e.e. y sefyllfa rhwng Cyngor Powys a BUPA
- Gall cau cartrefi preswyl arwain at d**diweithdra**.
- Sgil effaith **colli'r swyddi** hyn yn y cymunedau
- Pa mor **awyddus fyddai'r sector breifat** i gamu i'r adwy?
- A yw'r **sector breifat yn cynllunio** ar gyfer y cynnydd yn y ddarpariaeth?
- Sut fydd y Cyngor yn penderfynu lle bydd y cartrefi yn cael **eu lleoli**?
- A yw'r Cyngor wedi ystyried **cost y monitro** ar y sector preifat?
- Angen i'r ddarpariaeth **gofal yn y cartref** fod yn ei le **<u>cyn</u>** lleihau'r ddarpariaeth preswyl.
- Bydd y **pwysau ar ofalwyr** yn cynyddu.
- Ansawdd gofal yn gostwng mewn modd a fydd yn rhoi **henoed bregus mewn perygl**
- Angen ystyried ffactorau **demograffig** – mae nifer yr henoed yn cynyddu gydag amser.
- Bydd angen ffydd sylweddol yn y sector breifat gyda chryn adnoddau i sicrhau **cysondeb ac ansawdd**.
- Bydd **safon y ddarpariaeth yn newid** wrth i'r cytundeb rhwng y Cyngor a'r cwmni fynd rhagddo.
- Mae'n bwysig i unigolion **aros o fewn eu cymunedau**.
- Symud yr henoed o'u cymdeithas leol sy'n creu **oblygiadau i'r teuluoedd**.
- **Diffyg cefnogaeth deuluol** i breswylwyr oherwydd y gost o deithio ymhellach.
- Unigolion yn mynd i boeni oherwydd mae nhw **allan o'u 'cynefin'**.
- Nad yw'r Cyngor yn **ddigon clir a phendant** a gydag amser, a newid yn yr amodau, y bydd y sector breifat yn costio mwy o arian yn y pendraw.
- **Safon y gofal** yn dirywio wrth i weithwyr gael eu trin yn llai ffafriol.
- **'Moral' staff** y cartrefi a'r preswylwyr yn gostwng
- A fydd yna ddarpariaeth ar gyfer **Elderly Mentally Infirm** yn y 6 'cartref' newydd?
- **<u>Risg</u> i'r unigolion aros gartref** os nad oes teulu a dim digon o gyllid ar gyfer gofal 24 awr

- **'Bed blocking' mewn ysbytai** – unigolion angen lle mewn cartref preswyl, ond dim digon o le ar gael, ac felly efallai yn gorfod aros yn yr ysbyty nes bod gwely addas ar gael.
- Mwy o **bwysau ar Wasanaethau Cymdeithasol**. e.e. Tîm Therapi, Timau Gweithwyr Cymdeithasol –mwy o achosion i bob gweithiwr na fyddai'n ddiogel.
- Cynnydd yn y **gost ar gyfer gofal cartref**, offer angenrheidiol e.e. hoist, addasiadau i gartrefi e.e. cawodydd, lifft grisiau.
- **Rhestr aros** ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cynyddu – e.e. rhestr aros nawr o 2 fis ar gyfer asesiad gan dîm therapi.
- Angen sicrhau llefydd i **henoed 'lleol'**.
- Os yw'r sefyllfa yn aros yr un fath bydd **costau cynnal a chadw'r adeiladau** yn cynyddu.
- Dylai'r ddarpariaeth fod yn **gyson drwy holl gymunedau Gwynedd** – mynediad i wasanaethau yn draddodiadol yn wael beth bynnag mewn rhai ardaloedd (gweler ystadegau amddifadedd lluosog).
- Beth fydd y **gost o wneud y cartrefi'n addas** ar gyfer eu pwrpas?

**Awgrymiadau**

- Beth am greu cyfleoedd i **ddarparwr cymunedol lleol - model 'community connect'** ?
- Beth am ddenu **buddsoddiad allanol**?
- Dylid cadw rhai rhag ofn i'r **sector preifat fethu**
- **Gwerthiant** yr asedau'n gyfle – newid defnydd yr adeiladau.
- Beth am gael darpariaeth **gofal preswyl a nyrsio o fewn yr un cartref**?
- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth gofal symud at **fodel mwy arbenigol** ar gyfer anghenion poblogaeth hŷn (sy'n cynyddu) i'r dyfodol

## Canlyniad y bleidlais

Y cwestiwn: pa mor deg fyddai hi i'r Cyngor ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r strategaeth arbedion?

| | **Ia, byddai'n deg** | **Efallai** | **Na, dim o gwbl** |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 50% | 50% | |
| Aelodau staff | 71% | 22% | 7% |
| Preswylwyr | 55% | 38% | 7% |

## Cynnig dau – cynyddu maint dosbarthiadau yn yr ysgolion cynradd

**Cwestiynau**

- Sut i sicrhau nad yw'r gyfradd yn mynd dros 30?
  A - Drwy gymysgu oedrannau a chynnwys cymhorthion dosbarth
- A yw hyn yn cynnwys cymhorthion dosbarth?
  A - Ydi
- Os yw ysgolion yn cau, beth yw'r gost o gludo disgyblion i ddosbarthiadau mwy yn hytrach nag i ysgolion gyda dosbarthiadau bychain/llai?
  A - Ni fydd ysgolion yn cau o ganlyniad i'r cynnig hwn ond mae cyswllt wrth gwrs rhwng y cynnig a'r cynllun trefniadaeth ysgolion
- Ar faint o swyddi athrawon fyddai hyn yn ei effeithio?
  A - tua 30
- A yw'r cwestiwn cyfartaledd yn gweithio/berthnasol i sir fel Gwynedd?
  A – bydd y cynllun hwn yn effeithio mwy ar ysgolion canolig a mawr na rhai

bychain(11-30, 23-32)

- Faint o ysgolion sy'n rhaid eu huno i gael y gymhareb ddymunol?
  A – Ni fydd ysgolion yn cau o ganlyniad i'r cynnig hwn
- Beth yw'r dystiolaeth fod newid y gymhareb ('ratio') yn golygu dirywiad yn safon yr addysg ar y niferoedd yma?
  A - dydy hwn ddim yn honiad gan y gwasanaeth. Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar gyrhaeddiad.
- Beth yw'r goblygiadau o gael newid o un yn y gymhareb?
  A - hanner y gost
- Beth yw'r gwahaniaeth mewn gwariant y pen rhwng dosbarthiadau mawr a rhai llai?
  A – oddeutu £2,500 → oddeutu £9,000 y pen
- A oes gwahaniaeth safon rhwng ysgolion bach a rhai mawr?
  A - Dim ar sail adroddiadau Estyn
- Sut y mae'r gymhareb cyfartalog presennol yn cymharu ag ardaloedd cynghorau eraill?
  A - Yn y sector cynradd, Gwynedd yw'r 4ydd uchaf yng Nghymru
- Sut mae cyflogau athrawon yn cael eu penodi? A yw hyn yn dibynnu ar nifer y plant?
  A - Mae arian sy'n dod o'r cynulliad yn ddibynnol ar nifer y plant yn y sir.
- Ydi'r arian gan y Cynulliad ar gyfer addysg yn cael ei wario ar addysg?
- Oes gan y cynghorwyr ffigwr isafswm o faint o blant sy'n dderbyniol mewn ysgol gynradd?
- A yw cymorthyddion dosbarth yn orfodol yn ddibynnol ar y gymhareb athrawon/disgyblion?

**Pryderon**

- Sut mae cadw'r gyfradd yn ddigon isel i **gyfnod sylfaen**?
- A yw'r **adeiladau presennol yn addas** i gynnal dosbarthiadau mawr?
- Sut fydd dosbarthiadau mwy yn cael eu rheoli o ystyried **plant AHD ac anghenion** eraill?
- Bydd ansawdd yr **addysg ac ymddygiad yn dirywio**.
- Bydd pwysau gwaith yn cynyddu ymysg yr athrawon ac yn **achosi salwch**.
- Bydd athro yn gorfod dysgu **ystod eang o blant o ran oedran** ac yn gwneud y gwaith yn anodd o ganlyniad
- **Athrawon** yn cael eu gwneud yn **ddi-waith**.
- **Pobl alluog yn gadael** y sir/gwlad a ddim yn dychwelyd.
- Amau y bydd yr aelodau yn ystyried hyn o ddifrif o gofio pam y **cafodd rhai eu hethol**.
- A yw **costau diswyddo** yn y symiau arbedion?
- A yw **costau cyflogi mwy o gymorthyddion** dosbarth yn y symiau?
- Cafodd £300,000 ei wario y llynedd ar **ostwng niferoedd mewn dosbarth** i lai na 30!
- Os oes llai o athrawon yn yr ysgol bydd **llai o arbenigedd mewn pynciau** gwahanol
- A fydd **plant yn cael chwarae teg** o ystyried bod angen sylw athro/athrawes arnynt, nid cymhorthydd yn unig. Athrawon, nid cymorthyddion sydd wedi cael eu hyfforddi.
- **Llai o sylw unigol** i blant.
- Os ydych yn dibynnu mwy ar gymorthyddion sy'n tueddu i fod yn fenywod bydd **llai o ddylanwad dynion** mewn ysgolion.
- Athrawon yn llai effro i'r posibilrwydd fod gan **blentyn anghenion arbennig**.
- Mae'n bosibl y bydd ysgolion yn penderfynu cael **llai o gymorthyddion dosbarth** er mwyn arbed arian.
- **Colli rheolaeth a disgyblaeth** ar y dosbarth.
- Bydd **safonau llythrennedd a chyfrifeg yn dirywio**.
- A fydd hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth anghenion arbennig?

- A yw hyn yn golygu nad yw ysgol gyda llai na 27 – 28 o ddisgyblion yn hyfyw ac felly y bydd yn **cael ei chau**?
- Effaith ar **'foral' athrawon**
- Posibilrwydd bod yr athrawon yn llai effro i **broblemau personol megis trais** yn erbyn plentyn oherwydd ddim yn adnabod y plant na'r teuluoedd cystal.
- Byddai cau ysgolion pentref a chanolbwyntio ar ychwanegu maint ysgolion trefol yn golygu **colled cymunedol i gefn gwlad - a cholled ieithyddol.**
- Ydi cynyddu maint dosbarthiadau yn mynd i **gadw ysgolion bach yn agored**?
- Os yw'r cynllun yn cael ystyriaeth bydd rhaid **'gwerthu' yr oblygiadau** yn glir i osgoi camddealltwriaeth.

### Awgrymiadau amgenach

- Angen gwell trefn gan fod llawer o athrawon yn 'ymddeol' ac yna'n dychwelyd ar 'supply' sy'n ddrud – dydy hyn ddim yn rhoi cyfle i athrawon o'r brifysgol.
- Beth yw'r risg gwirioneddol gyda chynyddu cyfartaledd rhifau dosbarth pan mae athrawon wedi gorfod bod yn hyblyg ers blynyddoedd?
- Anghysondeb yn y strwythurau cyflogau addysg o gymharu â gweddill y sector cyhoeddus yn golygu bod toriadau yn anorfod

### Canlyniad y bleidlais

Y cwestiwn: pa mor deg fyddai hi i'r Cyngor ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r strategaeth arbedion?

Band A – cynyddu'r gymhareb o 25 i 27

| | **Ia, byddai'n deg** | **Efallai** | **Na, dim o gwbl** |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 60% | 20% | 20% |
| Aelodau staff | 63% | 22% | 15% |
| Preswylwyr | 64% | 18% | 18% |

Band B – cynyddu'r gymhareb o 25 i 28

| | **Ia, byddai'n deg** | **Efallai** | **Na, dim o gwbl** |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 60% | 10% | 30% |
| Aelodau staff | 42% | 30% | 28% |
| Preswylwyr | 46% | 27% | 27% |

## Cynnig tri – cau un ganolfan hamdden 'sych'

### Cwestiynau

- Ble maen nhw?
  A - Penygroes, Bethesda, Bermo a Dolgellau
- Ydy'r canolfannau ger ysgolion?
  A - Ydynt
- Faint o bobl sy'n defnyddio un ganolfan ee Bethesda?
  A - Bydd hyn yn derbyn ystyriaeth lawn fel rhan o'r cynllun manwl os bydd y Cyngor yn cynnwys y cynnig hwn yn y Strategaeth Arbedion derfynol
- Sut mae darpariaeth Gwynedd yn cymharu â siroedd eraill?
  A - Top y goeden o gymharu â chynghorau gwledig

**Pryderon**

- Mae dwy o'r canolfannau mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf difreintiedig/gwledig. Cynyddu'r broblem o ddiffyg mynediad i wasanaeth
- Mae'r elfen 'ataliol' yn bwysig yn y canolfannau hyn. Mae'n arbed llawer i wasanaethau eraill (ee iechyd) yn y pen draw
- Ar brydiau y ganolfan hamdden yw'r unig ganolfan gymuned yn yr ardal.
- Beth fyddai'n digwydd i'r clybiau sy'n defnyddio'r ganolfan, megis Clwb Stroc
- Bydd hyn yn creu ôl troed carbon drwy orfod teithio i leoedd pellach
- Sgil effaith ar amddifadedd plant
- Colli darpariaeth wrth ymyl ysgolion – creu mwy o gost i'r ysgol (teithio ac yn y blaen)
- Mae pob un ohonynt mewn ardaloedd gwledig sy'n golygu dipyn o deithio i ganolfan mewn ardal arall - gostyngiad mewn teithio ar y bws i wneud yn iawn am hyn
- Byddai hyn yn mynd yn groes i bolisïau'r llywodraeth
- Beth fydd y gost o gau'r adeilad a beth fydd yn digwydd i'r adeilad?
- Cryn effaith ar bobl ifanc megis clybiau ieuenctid.
- Iechyd cyhoeddus yn dirywio – creu cenedl o 'couch potatoes' a 'sofa surfers'
- Os byddant yn cau'r canolfannau hamdden sych – bydd hyn yn ychwanegu problem gordewdra a diffyg ffitrwydd yn y boblogaeth
- Diffyg adnoddau ffitrwydd yn agos at Bermo a Dolgellau
- Gall cau canolfan effeithio ar iechyd meddwl unigolion a fyddai yna'n cael effaith ar wasanaethau eraill e.e. gwasanaethau cymdeithasol
- A yw arbed £221,000 ei werth o?
- Mwy o broblemau ar y stryd os yw canolfan yn cau

**Awgrymiadau amgenach**

- Beth am edrych ar y ddarpariaeth i gyd?
- Angen ystyried a oes canolfan gymdeithasol yn yr un lleoliad â chanolfan sydd am gau.
- Mae angen ystyried darparu'r gwasanaeth mewn ffordd wahanol.
- Mae angen adolygu'r ffordd y mae'r canolfannau yn cael eu rheoli
- Beth am symud mwy o wasanaethau iechyd i'r ganolfan h.y. ar ôl trawiad ar y galon neu 'stroke'?
- Beth am gynnig y canolfannau fel adnodd ar gyfer mentrau preifat?
- Beth am godi mwy o dal mynediad?
- Beth am newid yr oriau agor – cau yn ystod oriau tawel?
- Beth am ehangu ar ddefnydd y canolfannau (arolwg o fewn y cymunedau)
- Beth am droi'r adeilad yn swyddfeydd i weithwyr Cyngor Gwynedd yn hytrach na phortacabins Penarlâg?
- Ffordd ymlaen - cynnig i'r gymuned eu rhedeg drwy grantiau ayyb

**Canlyniad y bleidlais**

Y cwestiwn: pa mor deg fyddai i'r Cyngor ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r strategaeth arbedion?

| | **Ia, byddai'n deg** | **Efallai** | **Na, dim o gwbl** |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 30% | 30% | 40% |
| Aelodau staff | 31% | 19% | 49% |
| Preswylwyr | 31% | 31% | 38% |

## Cynnig pedwar – torri nifer athrawon ysgolion uwchradd

**Cwestiynau**

- Beth fyddai effaith hyn ar y ganran o athrawon o fewn y sir?
  A – Byddai Band A yn golygu un athro yn llai yn yr ysgol fwyaf ac yna canrannau yn y lleill a Band B yn golygu dau athro yn llai yn yr ysgol fwyaf ac yna canrannau yn y lleill
- A yw'r swm yn benodol gywir?
  A - Ydi.
- Mae adolygu trefniadaeth yn mynd rhagddo beth bynnag fel rhan o agenda'r Cyngor
- Oes yna gwtogi yn mynd i fod ar yr athrawon anghenion arbennig p'run bynnag?

**Pryderon**

- Llai o athrawon yn golygu llai o reolaeth ac ymddygiad yn dirywio
- Oherwydd byddai'n rhaid gwarchod rhai pethau o ran Iechyd a Diogelwch gallai roi mwy o bwysau ar bynciau eraill.
- Perygl o golli pynciau cymdeithasol ar draul y rhai academaidd
- Mwy o deithio i ysgol gyfagos i dderbyn pynciau penodol e.e. drama, gwyddor chwaraeon
- Anodd rhoi'r addysg gorau i ddosbarth o fwy na 33 o ddisgyblion ac edrych ar anghenion unigol pob disgybl.
- Perygl na fydd hyn yn helpu'r sefyllfa diweithdra ble mae 45% o'r di-waith o fewn y grŵp oedran 16 - 25
- Iechyd a diogelwch yn dioddef o fewn pynciau fel cemeg a chwaraeon
- Perygl i blant difreintiedig gael eu heffeithio'n ormodol
- Posib y bydd hyn yn annheg ar ysgolion Arfon gan mai'r ysgolion hyn yw'r unig rai gyda dosbarth 6
- Dirywiad mewn safon addysg a chanlyniadau arholiadau
- Arbenigedd mewn pynciau arbennig yn diflannu
- Mwy o bwysau ar athrawon yn arwain at athrawon yn gadael
- Athrawon yn dysgu pynciau nad oes ganddynt gymhwyster i'w dysgu
- Colli staff o ansawdd, arbenigedd a brwdfrydedd
- Effaith tymor hir ar yr economi drwy hybu diboblogi.
- A yw'r swm a fydd yn cael ei arbed yn werth y golled addysgol?
- Mae'n bwysicach cadw safon dysgu yn yr ysgolion uwchradd nac yn yr ysgolion cynradd.
- Diffyg buddsoddi yn ein plant

**Awgrymiadau**

- Beth am fwy o rannu swyddi?
- Beth am ganolbwyntio ar yr ysgolion mwyaf?
- Beth am rannu athro rhwng ysgolion?
- Beth am ystyried rhewi neu dorri cyflogau?
- A yw' hi'n opsiwn tynnu'r 6ed dosbarth yn ôl i mewn i'r ysgolion er mwyn chwyddo niferoedd?
- Gall amrediad ehangach o bynciau gael ei ddarparu drwy ddisgyblion yn symud i golegau.

**Canlyniad y bleidlais**

Y cwestiwn: pa mor deg fyddai hi i'r Cyngor ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r strategaeth arbedion?

Band A

Torri hyd at 7.7 athro/athrawes

| | Ia, byddai'n deg | Efallai | Na, dim o gwbl |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 40% | 10% | 50% |
| Aelodau staff | 43% | 37% | 20% |
| Preswylwyr | 31% | 29% | 40% |

Band B

Torri hyd at 14.4 athro/athrawes

| | Ia, byddai'n deg | Efallai | Na, dim o gwbl |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 20% | 20% | 60% |
| Aelodau staff | 10% | 35% | 55% |
| Preswylwyr | 14% | 31% | 55% |

## Cynnig pump – adolygu meini prawf mynediad at wasanaeth cymdeithasol

### Cwestiynau

- Sut mae'r Cyngor am ariannu darpariaeth ar gyfer pobl Categori Sylweddol?
  - Fyddai dim darpariaeth ar gael.
- A oes disgwyl i'r unigolion dalu am y gwasanaeth?
  - Mae disgwyliad i dalu yn nawr os ydi'r modd ar gael yn unol â rheolau cenedlaethol.

### Pryderon

- Pwy fydd yn derbyn y bai yn y cwest os yw rhywun yn marw o ganlyniad i ddiffyg gofal.
- Pa mor hir fydd hi cyn i unigolion Categori 2 droi'n Categori 1 o ganlyniad i ddiffyg gofal?
- Baich gofalu am unigolion Categori 2 yn disgyn ar y 3ydd sector – ond heb gefnogaeth ariannol ychwanegol
- Perygl y bydd arbedion tymor byr yn cael effaith pellgyrhaeddol tymor hir
- Mwy o bwysau ar feddygon teulu
- Pwysau ar ofal cynradd ac eilradd
- Creu gormod o bwysau ar deuluoedd yr anghenus – angen ysbaid a chefnogaeth arnynt
- Peryg y bydd sectorau bregus o'r gymdeithas yn fwy bregus byth
- Beth fydd yn digwydd i'r unigolion os nad ydynt yn derbyn gofal?
- Sut all hyn weithio gyda'r cynllun i ofalu am fwy o bobl yn eu cartrefi? – mae'n mynd yn groes i'r cynllun arall.
- Creu mwy o bwysau ar weithwyr cymdeithasol

### Awgrymiadau

- Beth am gynnal adolygiad cyffredinol o Ofal Cymdeithasol?
- Cyfle i'r 3ydd sector/sector gymunedol - ond gyda chefnogaeth strategol leol
- Angen trafodaeth rhwng y Cyngor a'r sector iechyd ar ddiffinio cyfrifoldebau
- Mae angen mwy o ddeialog rhwng y prosiectau strategol sydd wrthi'n cael eu datblygu rhwng y 3ydd sector a'r Bwrdd Iechyd lleol gyda'r Cyngor yn bresennol ac yn cyfrannu hefyd.

**Canlyniad y bleidlais**

Y cwestiwn: pa mor deg fyddai hi i'r Cyngor ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r strategaeth arbedion?

| | **Ia, byddai'n deg** | **Efallai** | **Na, dim o gwbl** |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 40% | 20% | 40% |
| Aelodau staff | 0 | 0 | 0 |
| Preswylwyr | 38% | 12% | 50% |

## Cynnig chwech – diffodd goleuadau stryd rhwng 1 a 5 y bore

### Cwestiynau

- Pam cymryd 4 mlynedd i roi'r cynllun hwn ar waith?
  A - Oherwydd gwaith ymgynghori ac asesu risg fesul ardal
- Ydi hyn yn golygu yr holl oleuadau mewn stadau ynteu ambell un?
  A – Ydi heblaw am ganol trefi a ffyrdd dosbarth 1.
- Faint o lais fydd gan y cynghorau cymuned?
  A – Byddwn yn ymgynghori gyda'r cynghorau cymuned fel rhan o'r cynllun manwl os bydd y Cyngor yn cynnwys y cynnig hwn yn y Strategaeth Arbedion terfynol

### Pryderon

- Creu ofn ymysg yr henoed
- Cynnydd mewn trosedd ac anhrefn – yn arbennig ar stadau mawr
- Heddlu yn gorfod delio â'r cynnydd mewn troseddau
- Cynnydd mewn achosion am iawndal
- Diogelwch personol gweithwyr sydd angen bod allan yn ystod y nos yn dirywio e.e. meddygon, bydwragedd
- Mae cynllun tebyg wedi bod ym Mhowys ond mae nhw'n mynd yn ôl i oleuo'r lampau
- Achosi pryder os yw rhywun yn torri lawr yn y car
- Pobl yn baglu ar y ffordd adref o'r dafarn gan fod oriau yfed wedi eu hymestyn. Hefyd yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- A fydd y costau ymgynghori'n gwrthwneud yr arbediad?

### Awgrymiadau

- Tynnu'r golau oddi ar bob yn ail polyn golau
- Ddim yn mynd yn ddigon pell
- Angen edrych ar ail-fuddsoddi gydag ynni gwyrdd, goleuadau solar a 'motion sensors'.
- Pam ddim diffodd goleuadau ar lonydd A ac yn y trefi?
- Cefnogol i ddiffodd mwy o oleuadau.
- Mae trigolion Powys am dalu i ail-oleuo'r lampau
- Mae hyn yn gymorth mawr i leihau'r ôl troed carbon ond beth am fwy o gynlluniau tebyg!
- Lleihau goleuadau mewn swyddfeydd y Cyngor neu gosod 'sensors' i roi goleuadau ymlaen pan fo angen.
- Diffodd hanner y goleuadau rhwng 1 – 6 y bore.
- Diffodd y goleuadau tu allan i Ganolfan Hamdden y Bala.
- Diffodd goleuadau ar benwythnosau mewn stadau diwydiannol

**Canlyniad y bleidlais**

Y cwestiwn: pa mor deg fyddai i'r Cyngor ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r strategaeth arbedion?

| | Ia, byddai'n deg | Efallai | Na, dim o gwbl |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 90% | 0 | 10% |
| Aelodau staff | 54% | 32% | 14% |
| Preswylwyr | 79% | 14% | 7% |

## Cynnig saith - gostwng nifer y cynghorwyr i 65

**Cwestiynau**

- Ydym ni angen 65 o gynghorwyr?
- Beth mae cynghorwyr yn ei wneud am gyflog o £13,000 y flwyddyn?
- A'i ffordd o gael pensiwn arall ydi bod yn Gynghorydd?

**Pryderon**

- Wardiau maint mwy – cynghorwyr yn anhapus gyda'u telerau → cynghorwyr da yn mynd
- Ffiniau mwy yn golygu na fydd aelod yn gallu rhoi sylw angenrheidiol i'w etholwyr
- Effaith ar wardiau difreintiedig – os oes dwy ward yn cael eu cyfuno mewn ardal gymysg o ran amddifadedd

**Awgrymiadau**

- 65 cynghorwr oedd yn yr hen Gyngor Gwynedd a oedd yn cynnwys Conwy
- Angen lleihau'r nifer i 60
- Nid yw'r gostyngiad yn ddigon – lleihau hyd at 50
- Angen cynyddu'r cyfathrebu rhwng yr etholwyr a'r Cyngor
- Dylid newid yr aelodau a chynyddu'r angen i ddatgan diddordeb.
- Beth am fynd gam ymhellach ac adolygu trefn gyfansoddiadol parthed nifer/math o bwyllgorau?
- Angen sicrhau bod y Cynghorwyr yn gweithio er lles y Cyngor yn hytrach nag yn ei erbyn.
- Angen sicrhau nad ydynt yn derbyn mwy o lwfans oherwydd ffiniau mwy.
- Mae gormod o haenau democrataidd – cymuned/tre/sir/Parc Cenedlaethol/ Cynulliad/San Steffan/Brwsel

**Canlyniad y bleidlais**

Y cwestiwn: pa mor deg byddai i'r Cyngor ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r strategaeth arbedion?

| | Ia, byddai'n deg | Efallai | Na, dim o gwbl |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 0 | 0 | 0 |
| Aelodau staff | 100% | 0 | 0 |
| Preswylwyr | 100% | 0 | 0 |

## Cynnig wyth – cau rhai toiledau cyhoeddus

**Pryderon**

- Effeithio ar ymwelwyr i ardaloedd a chreu drwgdeimlad ymysg busnesau sydd raid darparu'r cyfleusterau yn lle.
- Creu argraff wael ymysg twristiaid
- Angen i doiledau i fod ar agor yn ystod yr haf a'r gaeaf – dim ar gyfer ymwelwyr yn unig - tymor twristiaeth wedi ymestyn
- Dirywiad mewn glanweithdra – bydd pobl yn defnyddio traethau, strydoedd, waliau a gwrychoedd os na fydd toiledau ar gael
- Does dim digon o doiledau ar hyd yr arfordir a does dim darparwyr eraill mewn ardaloedd gwledig.
- Perygl y bydd defnyddwyr anabl yn dioddef fwyaf.
- Annheg ar rieni gyda phlant ifanc/neu bobl sydd ag anghenion iechyd penodol.
- Effaith ar weithwyr mudol neu rhai sy'n gweithio heb gyfleusterau

**Awgrymiadau**

- Gwella ansawdd y toiledau ac yna ceisio creu incwm ohonynt
- Gan fod rhai busnesau yn agor eu toiledau i'r cyhoedd does dim angen cadw rhai ar agor
- Rhaid asesu pob un yn unol â'r defnydd

**Canlyniad y bleidlais**

Y cwestiwn: pa mor deg fyddai hi i'r Cyngor ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r strategaeth arbedion?

| | **Ia, byddai'n deg** | **Efallai** | **Na, dim o gwbl** |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 0 | 0 | 0 |
| Aelodau staff | 54% | 38% | 8% |
| Preswylwyr | 23% | 15% | 62% |

## Cynnig naw - Codi pris cinio ysgol

**Cwestiynau**

- Cwestiynu swm yr arbediad

**Pryderon**

- Bydd hyn yn arwain at gynyddu elw'r siop pysgod a sglodion lleol.
- Mwy o broblemau gordewdra ymysg plant.
- Hwn ydi'r unig bryd poeth y mae rhai plant yn ei gael, yn arbennig yn yr ardaloedd difreintiedig.
- Bydd bocsys bwyd yn cael eu llenwi gyda bwyd rhad archfarchnadoedd o safon isel
- Ddim yn fforddiadwy i lawer o deuluoedd - llawer o arian os ydych yn deulu mawr.
- Risg y bydd yr incwm o ginio ysgol yn disgyn yn sylweddol yn gyfan gwbl
- Bydd yr holl ymdrech i gael disgyblion i fwyta'n iach yn mynd yn ofer.
- Mae'r plant sydd ddim o fewn y categori hawlio cinio am ddim ond yn dod o gartrefi gweddol ddifreintiedig yn mynd i ddioddef

**Awgrymiadau**

- Beth am edrych ar beth sy'n digwydd mewn ardaloedd eraill

- Mae angen mwy o fuddsoddi mewn sgiliau rhiantu
- Cynnydd bychan i'r rhai sy'n talu a swm 'nominal' ar gyfer y rhai sy'n deilwng ar gyfer prydau rhad ac am ddim
- Beth am leihau'r dewis a darparu un pryd iach
- Mae'r codiad yn ormod, beth am 50c?

**Canlyniad y bleidlais**

Y cwestiwn: pa mor deg fyddai hi i'r Cyngor ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r strategaeth arbedion?

| | **Ia, byddai'n deg** | **Efallai** | **Na, dim o gwbl** |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 40% | 0% | 60% |
| Aelodau staff | 11% | 32% | 57% |
| Preswylwyr | 0 | 0 | 0 |

## Cynnig deg – codi £75 y flwyddyn ar staff i barcio ym meysydd parcio staff

**<u>Barn staff y Cyngor yn unig</u>**

**Pryderon**

- Cost gweinyddu a rheoli'r cynllun
- Nid oes gan gerbydau'r cyngor le i barcio a gall gostio hyd at £30 bob tro y byddant yn dod yn ôl i chwilio am le
- Fedrwch chi warantu safle parcio dyddiol i mi am £75?
- A fydd pawb yn talu £75 neu a fydd rhai yn cael 'concessions' e.e. rhan amser, gyrwyr ceir hanfodol?
- Posibl y bydd staff yn parcio ar ochr ffordd, stryd er mwyn peidio â thalu – goblygiadau iechyd a diogelwch
- Ddim yn deg ar y tri lleoliad dan sylw – diffyg cydraddoldeb rhwng yr holl leoliadau.

**Awgrymiadau**

- Beth am agor y meysydd parcio ar nosweithiau a phenwythnosau ar gyfer pawb?
- Beth am gynyddu'r gost yn unol â graddfa cyflog?
- Beth am gynyddu'r gost i un masnachol sef £150?
- Beth am wneud hyn ar gyfer pob aelod o staff sy'n parcio'u ceir mewn mannau gwaith e.e. ysgolion, canolfannau hamdden?
- Beth am godi tâl o £100 er mwyn cael defnyddio unrhyw faes parcio'r Cyngor neu faes parcio yng Ngwynedd drwy arddangos disc staff?
- Beth am gynnwys Cynghorwyr hefyd?
- Yn fwy tebygol o annog pobl i rannu ceir
- Mae yn digwydd mewn llawer Cyngor yn barod
- Dydy £75 y flwyddyn ddim llawer o arian os bydd hyn yn golygu arbed swyddi yn y cynllun ehangach yn ei gyfanrwydd

**Canlyniad y bleidlais**

Y cwestiwn: pa mor deg fyddai hi i'r Cyngor ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r strategaeth arbedion?

| | Ia, byddai'n deg | Efallai | Na, dim o gwbl |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 0 | 0 | 0 |
| Aelodau staff | 55 | 27 | 18 |
| Preswylwyr | 0 | 0 | 0 |

## Cynnig unarddeg – gostwng cyfraniad i ysgolion meithrin

- Effeithio'n anuniongyrchol ar Gylchoedd Ti a Fi
- Mae cylchoedd Ti a Fi a Meithrin yn darparu cyfle i gymdeithasu
- Perygl y bydd rhiant/rhieni yn cael eu hynysu
- Angen i rieni gymryd cyfrifoldeb am eu plant yn lle gadael i eraill ofalu amdanynt

**Canlyniad y bleidlais**

Y cwestiwn: pa mor deg fyddai hi i'r Cyngor ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r strategaeth arbedion?

| | Ia, buasai hi'n deg | Efallai | Na, dim o gwbl |
|---|---|---|---|
| Sector wirfoddol | 60 | 20 | 20 |
| Aelodau staff | 0 | 0 | 0 |
| Preswylwyr | 0 | 0 | 0 |

## Atodiad 1  Sylwadau adborth ar y sesiynau

### Sylwadau ac awgrymiadau pellach

- Mae angen mwy o ddylanwad ar y Cynulliad o ran sut mae grantiau yn cael eu dyrannu
- Dwi'n dal i deimlo'n gryf iawn bod angen cynyddu trethi er bod hyn yn anffasiynol
- Does yna ddim y fath beth a chinio rhad – mae'n rhaid i ni i gyd dalu am ein gwasanaethau rhywffordd neu gilydd. Hoffwn dalu mwy o drethi'n ganolog
- Gan fod angen torri 2% o incwm nid yw'n rhy simplistig i ystyried toriadau ar draws pob dim.
- Oes angen i bob aelod o staff dderbyn calendr sgleiniog - buasai peidio gwneud hyn yn arbediad bychan.
- Yn nes ymlaen trafodwch ddyfodol ysgolion bychain fel rhan o'r agenda.
- Peidiwch â chwtogi athrawon cynradd heb reswm digonol.
- Peidiwch â chau tai bach.
- Gostyngwch y nifer o gynghorwyr.
- Gostyngwch y torri gwair.
- Peidiwch â chwtogi cynnal a chadw lonydd.

### Sector Gwirfoddol

- Mwy o amser
- Gwybodaeth o flaen llaw er mwyn cael amser i ystyried y cynigion.
- Anodd pleidleisio heb weld y llun llawn a rhoi tegwch iddynt.
- Pryder sut mae'r atebion hyn am gael eu defnyddio. Diffyg ffydd yn y Cyngor.
- Angen trafod rhagor o ystyriaethau ac angen rhywsut cael 'y pictiwr cyfan' yn hytrach na phleidleisio ar bethau unigol wrth fynd ymlaen.
- Dylai hwn wedi bod yn sesiwn diwrnod cyfan er mwyn ystyried rhagor o opsiynau.
- Cafodd unigolion o'r drydedd sector gyfle i gyfrannu yn adeiladol. Mae gwir angen cynnwys y sector fel hyn er mwyn creu ymdeimlad o berchnogaeth o'r broses
- Dim angen talu i ddau gasglu canlyniadau'r pleidleisio – arbed arian
- Cael y papurau o flaen llaw.
- Mwy o amser i ystyried y pynciau i gyd.
- Cyfle pellach i drafod capasiti'r sector gymunedol i ymateb i'r her.
- Mwy o amser i drafod y cynigion yn llawn.
- Y bore wedi'i redeg yn effeithiol ond dylai rhagor o gyfarfodydd tebyg gymryd lle i roi mewnbwn i'r broses.

### Sesiwn Staff Caernarfon

- Diolch yn fawr
- Mwy o amser i drafod
- E-bost i ddilyn
- Mwy o amser i drafod gan fod y materion yn rhai pwysig sy'n dyngedfennol i fywydau rhai pobl
- Mwy o fanylion ar yr argymhellion. Cyfarfod blaenorol i benderfynu pa argymhellion i'w trafod
- Dylai hon fod wedi bod yn sesiwn drwy'r dydd
- Cael gwybod mwy am yr holl gynigion fydd yn mynd o flaen y cyngor

## Sesiwn Preswylwyr Caernarfon

### Sylwadau adborth

- Mae'n newid braf bod y Cyngor yn cynnwys y treth dalwyr lleol.
- Mwy o amser
- Hoffwn fod wedi ystyried mwy o'r opsiynau e.e. cau ysgolion, y nifer o gynghorwyr.
- Roedd yn wahanol iawn i beth oeddwn yn ei ddisgwyl
- I ba raddau y cyflawnodd y sesiwn ei hamcanion? Mae'n dibynnu ar faint o sylw sy'n cael ei rhoi i'r canlyniadau. Yn gyfan gwbl os nad ydw i'n bod yn synicaidd.
- Gofynnwyd i ni fynegi ein pryderon yn unig ac nid ein cefnogaeth i'r cynigion. Roedd yn teimlo mymryn yn negyddol.
- Chawsom ni ddim cyfle i wneud awgrymiadau e.e. peidio argraffu Newyddion a thalu treth Cyngor yn ddi-bapur. Roedd o i gyd yn ddiddorol iawn.
- Pe byddem wedi derbyn y papurau o flaen llaw byddem wedi gallu ystyried mwy o'r awgrymiadau.
- Hoffwn fod wedi derbyn y nodiadau cyn y sesiwn.
- A fyddai wedi bod yn bosib egluro pethau'n fwy llawn e.e. risgiau ac ati?
- Mwy o amser
- Hoffwn fod wedi derbyn y gwaith papur o flaen llaw.
- Trosglwyddwyd y rhan fwyaf o'r wybodaeth mewn ffordd glir gydag eglurhad llawn ond roedd angen mwy o amser i ddeall yr ochr Gwasanaethau Cymdeithasol o bethau. Da iawn chi am roi o'ch amser a'ch syniadau. Gobeithio y cawn wybod am y canlyniadau.
- Defnyddiol iawn. Byddai mwy o bobl yn derbyn toriadau yn fwy parod pe baent yn cael gwybod y ffeithiau.
- Diddorol iawn – hoffwn glywed mwy am y cynigion arbed. A fyddwn ni'n clywed yr hyn yr ydych wedi'i benderfynu.
- Pob dim yn iawn.
- Mwy o amser
- Hoffwn glywed adborth am ba opsiynau y penderfynwyd arnynt yn y pendraw.

## Sesiwn Staff - Dolgellau

### Sylwadau adborth

- Mwy o amser – mymryn ar frys.
- Byddai'n dda cael mwy o sesiynau tebyg.
- Amser i drafod y cynigion i gyd – mwy o gynrychiolwyr staff hefyd ...
- Byddai'n ddiddorol gweld y pleidleisiau o ardaloedd eraill yn y sir.
- Mwy o rybudd cyn y sesiwn er mwyn i nifer mwy o aelodau staff gael mynychu
- Lle fydd y pryderon/cwestiynau yn dilyn y sesiwn yn cael eu trafod, pwy fydd yn trafod y sylwadau?
- Mwy o rybudd er mwyn i nifer mwy o staff fod yn bresennol – efallai bod angen sesiwn diwrnod
- Galluogi athrawon i gymryd rhan hefyd.
- Trafod cynigion mwy dadleuol
- Derbyn mwy o gefndir a manylion y tu cefn i'r arbedion cyn gorfod pleidleisio!
- Cael ychydig mwy o gefndir cyn y cyfarfod

## Sesiwn Preswylwyr Dolgellau

### Sylwadau

- Byddai wedi bod yn neis pe bai mwy o Gymry yn y sesiwn hon
- Mwy o gynrychiolaeth o Gymry Cymraeg
- Nid oes dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i wario miloedd ar arfordir Tywyn a Bermo - cyfrifoldeb San Steffan yw hi!
- Rhoi mwy o amser i drafod yn iawn.
- Llongyfarchiadau i'r Cyngor am fynd ati i ymgynghori mewn ffordd ystyrlon a chadarnhaol.
- Yn edrych ar y problemau/pryderon → edrych hefyd ar y manteision
- Mwy o amser → i edrych ar bethau eraill!
- Gallai trefn yr eitemau fod yn well. Dylai'r gwasanaeth ar gyfer pobl hŷn fod wedi cael ei ystyried yn gynharach.
- Proses gwerth chweil. Pa ymateb gawn ni gan y Cyngor?
- Mwy o amser i drafod mwy o gwestiynau. Rhannu'r grwpiau i mewn i rhai Cymraeg a Saesneg er mwyn i'r drafodaeth symud yn gyflymach.
- Defnydd da o amser.
- O ganlyniad i ddiffyg amser ni thrafodwyd rhai materion pwysig iawn.
- Roedd y cyflwyniad yn dda. Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus os bydd y sylwadau i gyd yn cael eu hystyried yn llawn!
- Roedd hwn yn syniad gwych a chafodd llawer ei gynnwys OND roedd llawer yn rhy fyr ac ni thrafodwyd llawer o faterion holl bwysig.
- Plis wnewch chi wneud llawer mwy o rhain – ond byddai'n well pe bai i gyd yn y Saesneg neu yn y Gymraeg.
- Roedd angen mwy o amser i drafod mwy o'r pynciau a oedd angen sylw.
- Mae angen mwy o sesiynau rhyngweithiol fel hyn er mwyn ennyn cyfranogaeth preswylwyr Gwynedd.
- Mae wastad yn deg i ystyried rhywbeth.... dylai'r cwestiwn fod: 'A ddylai'r polisi hyn gael ei wireddu?'
- Gwell nodiadau briffio.

## Sesiwn Preswylwyr Pwllheli

## Staff Pwllheli

### Sylwadau adborth

- Gofyn o flaen llaw a oes angen darpariaeth cyfieithu. Gwastraff cael staff yma i ddim pwrpas
- Hoffwn fod wedi trafod toriadau mewn swyddi i adrannau'r Cyngor
- Gan fod yn hysbys pwy oedd yn mynd i fod yn y sesiwn, awgrymir y gellir asesu'r angen am gyfieithydd ymlaen llaw
- Mwy arbenigol ym maes y gweithwyr

### Sylwadau adborth

- Amser i drafod yr holl opsiynau a oedd yn y papur.
- Mwy o amser i drafod mwy o'r cwestiynau.
- Mwy o fanylder ar lai o faterion.
- Gwell dealltwriaeth o gostau net gan gynnwys y goblygiadau ar gyfer cyllid cyfalaf a chostau sy'n codi dro ar ôl tro ac ati.
- Mwy o bynciau 'llosg' i'w trafod
- Ceisio symud trwy'r cwestiynau'n fwy sydyn er mwyn ystyried mwy ohonynt.
- Gwell cyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd y lleoliad.

- Byddem wedi gallu ystyried mwy pe bai llai o siarad.
- Ni chafodd yr amser ei reoli'n effeithiol. Buaswn wedi hoffi mynd trwy fwy o'r sleidiau mewn cyfnod byrrach ar gyfer pob cwestiwn.
- Anodd mynegi barn glir heb fod yn gwybod mwy – manylion yr argymhellion